**Y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol**

—

**Equality and Social Justice Committee**

Alexa Gainsbury

Iechyd Cyhoeddus Cymru

**Senedd Cymru**
Bae Caerdydd, Caerdydd, CF99 1SN
SeneddCydraddoldeb@senedd.cymru
senedd.cymru/SeneddCydraddoldeb
0300 200 6565

—

**Welsh Parliament**
Cardiff Bay, Cardiff, CF99 1SN
SeneddEquality@senedd.wales
senedd.wales/SeneddEquality
0300 200 6565

25 Gorffennaf 2023

Annwyl Alexa

## Ymchwiliad i atal trais ar sail rhywedd drwy ddulliau iechyd y cyhoedd

Diolch am roi tystiolaeth i'n hymchwiliad presennol i atal trais ar sail rhywedd. Yn dilyn y sesiwn honno, byddem yn ddiolchgar pe gallech ymateb i'r pwyntiau ychwanegol isod.

### Dulliau adferol

Yn eu tystiolaeth ysgrifenedig, mae Estyn a Plismona yng Nghymru yn cyfeirio at y defnydd o ddulliau adferol ar gyfer trais ar sail rhywedd mewn ysgolion (yn benodol at Ymgyrch Encompass). A oes modd i chi roi gwybodaeth am y sylfaen dystiolaeth sy'n bodoli ar gyfer dulliau adferol, a pha mor effeithiol yw'r dulliau hyn o ran atal trais ar sail rhywedd? Os felly, a allech roi enghreifftiau o arfer gorau o unrhyw ymchwil neu werthusiadau rydych wedi'u cynnal?

### Diogelwch ar-lein

Yn ystod ein sesiwn, gwnaethom ymdrin â diogelwch ar-lein yn gryno, a sut y gall cyfryngau cymdeithasol ddylanwadu ar agweddau ac ymddygiadau pobl eraill. Yn eich barn chi, a oes digon yn cael ei wneud i roi i bobl ifanc y sgiliau i amddiffyn eu hunain rhag camdriniaeth a niwed ar-lein? A ddylai'r ffocws fod ar ymdrechion i annog a hyrwyddo negeseuon cadarnhaol ac, os felly, sut rydym yn ymgysylltu â dylanwadwyr cyfryngau cymdeithasol? Byddem yn croesawu enghreifftiau sydd gennych o waith ar y mater hwn.

Gan fod ein cyfnod casglu tystiolaeth yn dod i ben, byddem yn ddiolchgar cael eich ymateb erbyn 25 Awst 2023 os yw'n bosibl.

Yn gywir



Jenny Rathbone AS

Cadeirydd y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol

Croesewir gohebiaeth yn Gymraeg neu yn Saesneg.

We welcome correspondence in Welsh or English.